

Rhif: WG17685




Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Dogfen Ymgynghori

ar y Cyd gan Lywodraeth Cymru ac Estyn

Newidiadau arfaethedig i gylch arolygu
Estyn ac amseru ar gyfer cynlluniau
gweithredu ar ôl arolygiad



Dyddiad cyhoeddi: **6 Chwefror 2013**
Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn **1 Mai 2013**

Newidiadau arfaethedig i gylch arolygu Estyn ac amseru ar gyfer cynlluniau gweithredu ar ôl arolygiad

- Trosolwg** Mae'r ymgynghoriad hwn yn gofyn am eich sylwadau ar gyfres o ddewisiadau sy'n ymwneud â'r cyfnod o amser rhwng arolygiadau ysgolion a darparwyr. Mae hefyd yn cyflwyno'r dewisiadau i newid y cyfnodau rhybudd y dylai ysgolion a darparwyr eu derbyn cyn cynnal arolygiadau. Mae elfen olaf yr ymgynghoriad yn ymwneud â'r cyfnod o amser sydd gan ysgolion a darparwyr i baratoi eu cynllun gweithredu ôl-arolygiad yn dilyn arolygiad.
- Sut i ymateb** Dylid e-bostio/postio ymatebion i'r ymgynghoriad hwn i'r cyfeiriad isod i gyrraedd erbyn **1 Mai 2013** fan hwyraf.
- Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig** Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.
Mae'r dogfennau ymgynghori ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru yn www.cymru.gov.uk/ymgyngoriadau
- Manylion cysylltu** I gael rhagor o wybodaeth:
Y Gangen Perfformiad Ysgolion
Yr Adran Addysg a Sgiliau
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
e-bost: SMED1@cymru.gsi.gov.uk
Ffôn: 029 2082 6050

Diogelu data Sut y byddwn yn defnyddio'r farn a'r wybodaeth a roddwch inni

Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymdrin â nhw. Mae'n bosibl y bydd aelodau eraill o staff Llywodraeth Cymru yn gweld yr ymateb hefyd, er mwyn eu helpu i gynllunio ymgynghoriadau ar gyfer y dyfodol.

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Mae hynny'n helpu i ddangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion.

Mae'n bosibl y bydd yr enwau a'r cyfeiriadau y byddwn wedi'u cuddio yn cael eu cyhoeddi'n ddiweddarach, er nad yw hynny'n debygol o ddigwydd yn aml iawn. Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yn caniatáu i'r cyhoedd gael gweld gwybodaeth a gedwir gan lawer o gyrff cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru. Mae hynny'n cynnwys gwybodaeth sydd heb ei chyhoeddi. Fodd bynnag, mae'r gyfraith hefyd yn caniatáu i ni gadw gwybodaeth yn ôl dan rai amgylchiadau. Os bydd unrhyw un yn gofyn am gael gweld gwybodaeth a gadwyd yn ôl gennym, bydd rhaid inni benderfynu a ydym am ei rhyddhau ai peidio. Os bydd rhywun wedi gofyn inni beidio â chyhoeddi ei enw a'i gyfeiriad, bydd hynny'n ffaith bwysig i ni ei chadw mewn cof. Fodd bynnag, fe allai fod rheswm pwysig dros orfod datgelu enw a chyfeiriad unigolyn, er ei fod wedi gofyn i ni beidio â'u cyhoeddi. Byddem yn cysylltu â'r unigolyn ac yn gofyn am ei farn cyn gwneud unrhyw benderfyniad terfynol i ddatgelu'r wybodaeth.

Cynnwys

| | |
|-------------|---|
| Rhagair | 1 |
| Cyflwyniad | 2 |
| Cefndir | 3 |
| Yr holiadur | 4 |

Rhagair


Mae Llywodraeth Cymru ac Estyn wedi cytuno i gynnal ymgynghoriad cyhoeddus ar y cyd ar:

1. y gofyniad i Estyn arolygu o fewn cyfnod penodol o ddyddiad yr arolygiad diwethaf;
2. hyd yr ysbeidiau rhwng arolygiadau;
3. y cyfnod o rybudd am arolygiad a roddir i ysgolion a darparwyr gan Estyn;
4. y gofyniad i ysgolion gynnal cyfarfodydd cyn-arolygiad;
5. y gofyniad am holiaduron rhieni/gofalwyr a dysgwyr, a'r,
6. amser a ganiateir ar gyfer paratoi cynllun gweithredu ôl-arolygiad.

Mae'r materion ym mharagraffau 1, 2, 4 a 6 yn cael eu rheoli gan ddeddfwriaeth a byddai angen cyflwyno newidiadau i'r ddeddfwriaeth honno er mwyn eu newid. Nid yw'r materion ym mharagraffau 3 a 5 yn cael eu rheoli gan ddeddfwriaeth felly ni fyddai angen newid y ddeddfwriaeth er mwyn eu newid.

Yn y ddogfen ymgynghori hon, rydym yn cyflwyno'r materion sy'n gysylltiedig ag unrhyw newid i'r cyfnod rhybudd neu'r cyfnod rhwng arolygiadau. Rydym hefyd yn cyflwyno cyfres o gwestiynau sy'n gofyn am eich barn chi ar fanteision neu anfanteision newid y trefniadau cyfredol ar amseru arolygiadau Estyn.

Os bydd unrhyw gefnogaeth gadarnhaol dros newid, yna mae hyn yn debygol o arwain at ddeddfwriaeth newydd. Byddwn yn cyflwyno unrhyw newidiadau i'r trefniadau arolygu cyn gynted ag y bo'n ymarferol bosibl, ond nid cyn mis Ionawr 2014.





Cyflwyniad

Mae'r ddogfen ymgynghori hon yn gofyn am eich sylwadau ar gyfres o ddewisiadau sy'n ymwneud â'r cyfnod o amser rhwng arolygiadau ysgolion a darparwyr. Mae hefyd yn cyflwyno'r dewisiadau i newid y cyfnodau rhybudd y dylai ysgolion a darparwyr eu cael cyn cynnal arolygiadau. Mae elfen olaf yr ymgynghoriad yn ymwneud â'r cyfnod o amser sydd gan ysgolion a darparwyr i baratoi eu cynllun gweithredu ôl-arolygiad yn dilyn arolygiad.

Dyma'r sectorau sy'n berthnasol i'r ymgynghoriad hwn:

- ysgolion meithrin a gynhelir, lleoliadau sy'n darparu addysg feithrin a lleoliadau a gynhelir gan, neu sy'n derbyn arian gan awdurdodau lleol ("addysg feithrin berthnasol");
- ysgolion cymunedol;
- ysgolion gwirfoddol;
- ysgolion sefydledig;
- ysgolion arbennig cymunedol;
- ysgolion arbennig sefydledig;
- unedau cyfeirio disgyblion;
- addysg bellach;
- dysgu oedolion yn y gymuned;
- gwasanaethau cymorth ieuencid; a
- dysgu yn y gwaith.

Nid yw awdurdodau lleol, gwasanaethau dysgu troseddwy'r ifanc, addysg a hyfforddiant cychwynnol i athrawon, gwasanaethau gyrfaoedd nac ysgolion annibynnol yn rhan o gwmpas yr ymgynghoriad hwn.

Cefndir

Ym mis Medi 2010, cyflwynodd Estyn drefniadau arolygu newydd ar ddechrau cylch arolygu chwe blynedd (2010-2016) ar gyfer y rhan fwyaf o'r sectorau a arolygir ganddo. Cynhaliodd Estyn adolygiad canol tymor o'r trefniadau arolygu hyn ar ddechrau 2012 trwy gynnal ymgynghoriad anffurfiol, holiaduron a chyfarfodydd ffocws gyda rhanddeiliad ac arolygwyr. Cafwyd ymateb cadarnhaol ar y cyfan i'r trefniadau presennol. Roedd mwyafrif helaeth o'r rhanddeiliaid eisiau parhau â'r trefniadau hyn fel ag y maent, gyda dim ond rhyw fân awgrymiadau ar gyfer gwelliant.

Er hynny, cododd dau bwynt pwysig yn sgil yr adolygiad canol tymor. Roedd y cyntaf yn ymwneud â'r modd yr oedd ysgolion a darparwyr yn gallu rhagfynegi gyda rhywfaint o sicrwydd pryd y byddent yn cael arolygiad yn ystod y cylch arolygu chew blynedd. Roedd yr ail bwynt yn ymwneud â'r cyfnod rhybudd cyn arolygiadau, gyda nifer sylweddol o'r rhanddeiliaid o'r farn y byddai'n well cwtdogi'r cyfnod rhybudd a roddir i ysgolion/darparwyr neu i beidio â chael cyfnod rhybudd o gwbl. Mae'r ddau fater yn wahanol. Mae'r cyntaf yn ymwneud â'r angen i Estyn arolygu pob ysgol/darparwr o fewn chwe blynedd i'w harolygiad diwethaf. Mae'r ail fater yn ymwneud â faint o rybudd a gaiff ysgolion/darparwyr cyn eu harolygiad (20 diwrnod gwaith ar hyn o bryd). Mae mater pellach yn ymwneud â faint o amser sydd gan ysgolion a darparwyr eraill i baratoi eu cynllun gweithredu ôl-arolygiad.

Strwythur yr ymgynghoriad

Mae'r materion craidd sy'n berthnasol i'r ymgynghoriad hwn yn ymestyn ar draws pob math o leoliadau arolygu, er bod rhai cwestiynau'n ymwneud yn benodol â pha effaith fyddai'r newidiadau'n ei chael ar un sector o gymharu â'r holl sectorau. Mae hyn oherwydd y rheoliadau a'r amgylchiadau gwahanol mewn ysgolion, er enghraifft, o gymharu â cholegau addysg bellach, dysgu yn y gwaith neu ddysgu oedolion yn y gymuned.

Dylech ystyried yr ymgynghoriad cyfan ac ymateb i'r holl feysydd, ond lle bo'r materion yn effeithio ar rai sectorau penodol yn fwy na'r lleill, rydym wedi pwysleisio hyn er hwylustod.

Yr holiadur

Rhagfynegi arolygiadau

(Cwestiwn 1: A ddylid newid y ddeddfwriaeth fel nad yw darparwyr yn gallu rhagfynegi dyddiad eu harolygiad nesaf?)

Mae'r bylchau rhwng arolygiadau wedi'u pennu gan y rheoliadau canlynol:

- Rheoliadau Addysg (Arolygu Addysg Feithrin) (Cymru) 1999. Mae'r rheoliadau hyn yn datgan bod rhaid i Estyn arolygu addysg feithrin berthnasol o fewn 6 blynedd i ddyddiad yr arolygiad diwethaf. Nid yw hyn yn berthnasol i ysgolion meithrin a gynhelir sy'n cael eu harolygu o dan Reoliadau Addysg (Arolygu Ysgolion) (Cymru) 2006.
- Rheoliadau Arolygu Addysg a Hyfforddiant (Cymru) 2001. Mae'r rheoliadau hyn yn datgan bod rhaid i Estyn arolygu'r canlynol o fewn 6 blynedd i ddyddiad yr arolygiad diwethaf:
 - addysg neu hyfforddiant i unigolion 16 oed neu drosodd sy'n cael ei ariannu gan Weinidogion Cymru neu'r awdurdod lleol. Mae hyn yn cynnwys addysg bellach, dysgu oedolion yn y gymuned a dysgu yn y gwaith;
 - addysg neu hyfforddiant i unigolion o oedran ysgol gorfodol wedi'i ddarparu mewn ysgol;
 - addysg bellach wedi'i ddarparu gan ysgol;
 - addysg neu hyfforddiant a ddarperir yn y sector addysg uwch i baratoi unigolion i fod yn weithwyr ieuencid neu cymunedol, neu hyfforddiant pellach ar gyfer gweithwyr o'r fath.
- Rheoliadau Addysg (Arolygu Ysgolion) (Cymru) 2006. Mae'r rheoliadau hyn yn datgan bod rhaid i Estyn arolygu ysgolion cymunedol, arbennig cymunedol, gwirfoddol, sefydledig, ysgolion arbennig sefydledig neu ysgolion meithrin a gynhelir o fewn 6 blynedd i ddyddiad yr arolygiad diwethaf.

Un o effeithiau'r rheoliadau hyn yw bod ysgolion a darparwyr i bob pwrpas yn cael eu harolygu bob 6 blynedd, a bod eu sefyllfa o ran y cylch arolygu presennol yn dibynnu i raddau helaeth ar pryd y cawsant eu harolygu yn ystod y cylch arolygu diwethaf. Mae hyn yn golygu bod darparwyr yn gallu rhagfynegi, gyda chryn dipyn o sicrwydd, pryd y cynhelir yr arolygiad nesaf. Yn y rhan fwyaf o achosion, gallant ragfynegi dyddiad eu harolygiad nesaf o fewn tymor academiaidd, hyd yn oed os na fyddant yn derbyn rhybudd ffurfiol am eu harolygiad tan bedair wythnos ymlaen llaw.

Er bod y rheoliadau hyn yn caniatáu i Estyn arolygu darparwyr ar unrhyw bwynt o fewn cylch 6 blynedd o'r arolygiad diwethaf (ac mae Estyn yn gwneud hyn weithiau ar gyfer dibenion penodol) mae hyn yn anodd i'w gyflawni'n ymarferol. Gan fod gan Estyn gymaint o ddarparwyr i'w harolygu nid yw'n bosibl iddo fod mor hyblyg ag y dymunai o ran dyddiad yr arolygiad o fewn yr ysbaid 6 blynedd. Er mwyn gallu arolygu darparwyr yn gynharach yn y cylch byddai'n rhaid symud darparwyr eraill i

gyfnod diweddarach yn y cylch. Fodd bynnag, ni ellir gwneud hyn heb greu anghydbwysedd mawr yn nifer yr arolygiadau a gynhelir bob blwyddyn. Byddai symud cyfran sylweddol o arolygiadau ynghynt yn y cylch yn golygu y byddai llawer mwy o ddarparwyr yn cael eu harolygu ynghynt yn y cylch, a tipyn llai yn ddiweddarach yn y cylch. Byddai'r anghydbwysedd y byddai hyn ei greu yn nifer yr arolygiadau a gynhelir bob blwyddyn yn arwain at oblygiadau difrifol o ran dosbarthu gwaith blynyddol Estyn. Byddai hefyd yn camystumio'r sylfaen dystiolaeth sy'n llywio Adroddiad Blynyddol Estyn.

Ar ben hynny, bydd ysgolion a darparwyr yn dal i allu rhagfynegi dyddiad eu harolygiad yn y cylch dilynol (oni bai bod hyd yn oed mwy o arolygiadau yn cael eu symud ynghynt yn y cylch, gan amharu ar gydbwysedd yr arolygiadau o flwyddyn i flwyddyn o fewn y cylch arolygu).

O ganlyniad, yn y rhan fwyaf o achosion, mae Estyn yn arolygu ar ysbeidiau penodol rheolaidd o fewn y cyfnod 6 blynedd.

Yr unig ffordd bendant o sicrhau na all ysgolion/darparwyr ragfynegi amseriad eu harolygiad yw dileu y gofyniad i Estyn arolygu o fewn cyfnod penodol o ddyddiad yr arolygiad diwethaf.

Mae llawer o ddarparwyr yn ystyried bod arolygiadau'n gefnogol i'w proses o wella, ac yn gyfle i weld pa mor gywir yw eu hunanwerthusiad a pha mor effeithiol yw eu cynlluniau datblygu. Ni ddylid trin arolygiad fel digwyddiad 'untro' sy'n digwydd unwaith bob chwe blynedd sydd angen rhywfaint mwy o waith paratoi nag arfer.

Prif fanteision newid y ddeddfwriaeth fel na allai darparwyr ragfynegi dyddiad eu harolygiad nesaf yw:

- na fyddent yn paratoi'n ormodol ar gyfer arolygiad;
- y byddent yn fwy tebygol o hunanwerthuso yn fwy rheolaidd a pharhaus;
- y byddai angen iddynt fod yn barod am arolygiad unrhyw bryd;
- y byddai'r cyhoedd yn debygol o fod yn fwy hyderus nad yw darparwyr yn paratoi'n ormodol ar gyfer arolygiadau; a
- y byddai llai o'r straen y mae athrawon fel petaent yn ei ddioddef o wybod dyddiad yr arolygiad ymhell ymlaen llaw.

Hyd y cylchoedd neu'r cyfnodau arolygu

(Cwestiwn 2: Yn eich barn chi, beth yw'r hyd amser gorau ar gyfer arolygu'r holl ddarparwyr o leiaf unwaith?)

Ar hyn o bryd, mae pob darparwr yn derbyn arolygiad craidd bob chwe blynedd. Yn sgil arolygiad, mae angen rhywfaint o waith dilynol ar rai sefydliadau hefyd, sydd fel arfer yn golygu ymweliadau monitro gan Arolygwyr EM. Felly, mae darparwyr sy'n tangyflawni eisoes yn derbyn mwy nag un ymweliad arolygu o fewn cyfnod chew blynedd. Pe bai Estyn yn mabwysiadu system arolygu fwy hyblyg, ac un na

ellir ei rhagfynegi i'r un graddau, yna gallai'r ysbeidiau rhwng arolygiadau craidd sefydliadau sy'n tangyflawni hefyd fod yn fyrrach na'r cyfartaledd.

Un ddadl yw y dylai darparwyr sy'n cyflawni'n dda gael eu harolygu'n llai rheolaidd. Efallai y bydd system fwy hyblyg, na ellir ei rhagfynegi i'r un graddau, yn golygu bod ysbeidiau hirach na'r cyfartaledd rhwng arolygiadau craidd darparwyr sy'n cyflawni'n well.

Mae'r system chwe blynedd bresennol yn golygu ein bod yn paratoi adroddiad ar bob darparwr yng Nghymru oddeutu bob chwe blynedd. Yn y system ysgolion a gynhelir, mae hyn yn golygu bod rhieni/gofalwyr a phartion eraill â diddordeb yn gallu cael gafael ar wybodaeth ddefnyddiol a dylanwadol ar ysgolion penodol. Mae hefyd yn golygu bod adroddiad am bob ysgol yn cael ei lunio o leiaf unwaith pan fo'r rhan fwyaf o blant yn eu hysgol gynradd neu uwchradd – er bod adroddiadau weithiau'n ymddangos fel mae'r plentyn ar fin gadael, neu wedi gadael, yr ysgol dan sylw.

Wrth ddileu'r elfen ragfynegi o'r system bresennol, bydd angen dileu'r cysylltiad rhwng amseru'r arolygiad a'r cyfnod penodedig rhwng arolygiadau. Trwy wneud hyn, mae'n bosibl na fyddai ysgol neu ddarparwr a all fod yn disgwyl arolygiad yn ystod y 12 mis nesaf (oherwydd i'r arolygiad diwethaf gael ei gynnal 5 mlynedd yn ôl) yn cael eu harolygu tan yn ddiweddarach yn y cyfnod arolygu newydd.

Er y bydd hyn yn arwain at arolygiadau mwy ystyrllon os cyflwynir newidiadau i'r trefniadau presennol, mae'n bosibl na fydd rhieni/gofalwyr mewn rhai ysgolion yn gallu cael gafael ar adroddiad am ysgolion penodol am gyfnod hirach o amser (hirach na'r chwe blynedd yn achos rhai ysgolion ar hyn o bryd).

Rhybudd o arolygiad a'r ffactorau sy'n effeithio ar hynny

Dros amser, mae Estyn wedi lleihau'n sylweddol y cyfnod rhybudd sy'n cael ei roi i ddarparwyr cyn eu harolygiadau – o flwyddyn i un tymor, ac i 20 diwrnod gwaith ar hyn o bryd. Er bod Estyn wedi mabwysiadu'r arfer o roi rhybudd o arolygiadau i ddod nid yw hyn yn ofyniad cyfreithiol.

Pe baem ni'n lleihau'r cyfnod rhybudd ymhellach, un effaith fyddai lleihau'r straen ymddangosiadol ar athrawon. Mae cyrff sy'n cynrychioli athrawon wedi dweud bod cyfnod rhybudd byrrach yn well na chyfnod hir yn arwain at arolygiad. Byddai cyfnod rhybudd byrrach hefyd yn lleihau'r demtasiwn i ysgolion baratoi'n ormodol, a defnyddio'r pedair wythnos cyn yr arolygiad i geisio gwella gormod o bethau'r un pryd.

Anfantais lleihau'r cyfnod rhybudd ar gyfer arolygiadau ysgolion fyddai llai o amser i gyrff llywodraethu ysgolion roi gwybod i rieni/gofalwyr am yr arolygiad sydd i'w gynnal. O dan baragraff 6 Atodlen 4 Deddf Addysg 2005 mae gan gorff llywodraethu ddyletswydd i gymryd camau rhesymol ymarferol i hysbysu rhieni/gofalwyr disgyblion cofrestredig yn yr ysgol am yr arolygiad. Pe bai Estyn yn lleihau'r cyfnod rhybudd yn sylweddol, neu'n rhoi'r gorau i ddarparu unrhyw rhybudd o gwbl, byddai angen diwygio a diddymu'r ddarpariaeth hon o bosibl.

Mae gan gyrff llywodraethu ysgolion ddyletswydd hefyd i drefnu cyfarfodydd rhieni/gofalwyr. Yn ôl Rheoliadau Addysg (Arolygu Ysgolion) (Cymru) 2006 (Rheoliad 8), mae'n ofynnol i gyrff llywodraethu gymryd camau rhesymol ymarferol i roi rhybudd ysgrifenedig i rieni/gofalwyr am gyfarfod rhieni/gofalwyr o leiaf dair wythnos cyn dechrau'r arolygiad.

O ran y sectorau ysgolion hefyd, byddai llai o amser i ddsbarthu, casglu a dadansoddi holiaduron y rhieni/gofalwyr a/neu'r dysgwyr sy'n rhoi cyfle defnyddiol i rieni/gofalwyr a dysgwyr roi sylwadau cyfrinachol i'r arolygwyr cyn dechrau'r arolygiad. (Mewn lleoliadau ôl-16, bydd holiaduron "Llais y Dysgwr" yn ddigon yn lle holiaduron ar wahân Estyn).

Pe bai'r cyfnod rhybudd yn cael ei leihau ymhellach fyth, neu pe na bai unrhyw gyfnod rhybudd o gwbl, yna mae'n bosibl na fyddai modd cynnal cyfarfodydd rhieni/gofalwyr cyn yr arolygiad neu dderbyn ymatebion i holiaduron rhieni/gofalwyr a dysgwyr. Hefyd, byddai'n amhosibl i arolygwyr ofyn am adroddiad hunanwerthuso a dogfennau eraill gan ysgolion/darparwyr ymlaen llaw, na'u dadansoddi chwaith.

Gall cyfnod rhybudd byr iawn, neu dim cyfnod rhybudd o gwbl, hefyd ei gwneud hi'n anodd trefnu cyfarfodydd â chynrychiolwyr y cyrff llywodraethu a fyddai o bosibl yn methu â mynychu cyfarfod ar fyr rybudd oherwydd gofynion gwaith neu ymrwymadau eraill. Gall hefyd roi peth pwysau ychwanegol ar allu'r cynrychiolydd arall i fynychu cyfarfod adborth ar fyr rybudd wedi'r arolygiad.

Ffactorau sy'n effeithio ar y cyfnod rhybudd i ysgolion

(Cwestiwn 3: A ddylai Estyn barhau â'r cyfarfodydd rhieni/gofalwyr cyn-arolygiad fel rhan o arolygiadau ysgolion?)

Cyfarfod rhieni/gofalwyr

O ran y sector ysgolion, mae Rheoliadau Addysg (Arolygu Ysgolion) (Cymru) 2006 yn ei gwneud hi'n ofynnol i gyrff llywodraethu ysgolion:

- drefnu cyfarfod i rieni/gofalwyr cyn yr arolygiad;
- dewis amser a lle ar gyfer y cyfarfod hwnnw gan ystyried yr hyn sy'n gyfleus i rieni/gofalwyr;
- cymryd camau rhesymol ymarferol i roi rhybudd ysgrifenedig o'r cyfarfod i'r canlynol o leiaf dair wythnos cyn i'r arolygiad gychwyn:
 - rhieni/gofalwyr disgyblion cofrestredig;
 - yr awdurdod lleol yn achos plentyn sy'n derbyn gofal;
 - Gweinidogion Cymru a'r awdurdod lleol, os ydynt yn talu ffioedd am ddarparu addysg mewn ysgol arbennig, a bod rhiant/gofalwyr y plentyn hwnnw'n gofyn am hynny;

Ac eithrio arolygwyr sy'n rhan o'r tîm arolygu, ac unrhyw ungiolyn y maent am iddynt fod yn bresennol ar gyfer darparu cymorth gweinyddol, ni chaniateir i unrhyw un arall heblaw'r rhai sy'n derbyn rhybudd fynychu'r cyfarfod.

Y fantais o gynnal cyfarfod rhieni/gofalwyr yw ei fod yn gyfle i'r rhieni/gofalwyr fynegi barn ar ddarpariaeth yr ysgol a chynnydd eu plant. Mae hyn yn llywio rhai o'r damcaniaethau a'r llwybrau ymholi y bydd arolygwyr yn eu defnyddio adeg wythnos yr arolygiad. Yr anfanteision, ar y llaw arall, yw bod y niferoedd sy'n bresennol yn isel iawn; nad yw rhieni/gofalwyr weithiau'n cyfrannu fawr ddim; ac, mewn rhai achosion, bod rhieni/gofalwyr yn teimlo fel na allant ddweud eu dweud yn iawn oherwydd presenoldeb athrawon neu lywodraethwyr eraill sydd hefyd yn rhieni/gofalwyr â phlant yn yr un ysgol ac felly â'r hawl i fynychu. O safbwynt sefydliadol, anfantais y cyfarfod rhieni/gofalwyr yw'r cyfyngiadau o ran y cyfnod rhybudd o arolygiad - gan fod rhaid cyhoeddi'r cyfarfod dair wythnos cyn yr arolygiad, yn ôl y rheoliadau presennol.

Mae rhai o'r farn bod ffyrdd eraill o gyflawni swyddogaeth cyfarfod rhieni/gofalwyr (casglu barn y rhieni/gofalwyr) yn hytrach na chynnal cyfarfod, er enghraifft, trwy ddsbarthu arolwg neu holiadur. Ar hyn o bryd, mae Estyn yn dosbarthu holiadur i'r holl rieni/gofalwyr mewn ysgol sydd i'w harolygu. Gall rhieni/gofalwyr ddychwelyd yr holiaduron naill ai drwy e-bostio neu bostio'n uniongyrchol i Estyn, a hynny'n gwbl gyfrinachol. Mae rhai o'r rhieni/gofalwyr yn credu bod holiadur yn gyfle iddynt ddweud eu dweud yn agored, tra byddent yn fwy cyndyn o wneud hynny mewn cyfarfod rhieni/gofalwyr. Ar y cyfan, mae holiaduron yn darparu cymaint o wybodaeth am farn rhieni/gofalwyr â'r hyn a geir mewn cyfarfodydd rhieni/gofalwyr. Maent hefyd yn cael eu bwydo i'r gronfa ddata genedlaethol, ac mae timau arolygu Estyn yn gallu cymharu'r canlyniadau gan rieni/gofalwyr â'r patrwm cenedlaethol sy'n deillio o holl arolygiadau Cymru.

Holiaduron rhieni/gofalwyr a dysgwyr

(Cwestiwn 4: A ddylai Estyn barhau â'i holiaduron i rieni/gofalwyr a dysgwyr?)

Nid yw holiaduron rhieni/gofalwyr a dysgwyr yn ofyniad cyfreithiol felly nid ydynt yn orfodol. Mae holiaduron i rieni/gofalwyr yn rhan o arolygiadau ysgolion Estyn ers y cylch cyntaf o arolygiadau ddechrau'r 1990au. Cafodd holiaduron i ddysgwyr eu cyflwyno fel rhan o drefniadau arolygu newydd ym mis Medi 2010 ac maent yn rhan o'r broses o arolygu bron pob sector a arolygir gan Estyn.

Cynigir cyfle i rieni/gofalwyr a dysgwyr gwblhau holiaduron yn electronig neu ar bapur. Mae'r holiaduron yn cael eu dychwelyd yn gyfrinachol i Estyn. Mae Estyn yn dadansoddi'r atebion, sy'n golygu bod modd cynhyrchu meincnodau cenedlaethol o atebion fel y gall arolygwyr eu defnyddio i gymharu'r ymatebion gan ysgolion unigol. O ran ysgolion sy'n cynnal arolwg bodlonrwydd y rhieni/gofalwyr neu'r disgyblion at ddibenion hunanwerthuso, mae'r meincnodau cenedlaethol hyn hefyd o gymorth iddynt feincnodi atebion i'w holiaduron eu hunain.

Mae'n cymryd amser i ddsbarthu, casglu a dadansoddi holiaduron rhieni/gofalwyr a dysgwyr. Un ateb posibl yw bod Estyn yn gofyn i'r ysgolion gynnal eu harolygon eu hunain a defnyddio'r canlyniadau i lywio arolygiadau, yn enwedig y llwybrau ymholi y

mae arolygwyr yn eu dilyn. Mae anfanteision i hyn hefyd, fel llai o gyfrinachedd o bosibl; llai o gysylltiad uniongyrchol rhwng rhieni/gofalwyr/dysgwyr a'r arolygwyr; a diffyg meincnodau cenedlaethol i gymharu canlyniadau'r holiaduron.

Ar draws yr holl sectorau: y cyfnod rhybudd

(Cwestiwn 5: A ddylid lleihau'r cyfnod rhybudd ar gyfer arolygiad o'r 20 diwrnod gwaith a geir ar hyn o bryd? Os felly, faint o rybudd ddylid ei roi?)

O gofio'r holl ffactorau uchod, gall lleihau'r cyfnod rhybudd gael cryn effaith ar y modd mae Estyn yn trefnu elfennau penodol o'r trefniadau arolygu presennol, yn enwedig (lle bo'n berthnasol) cyfarfodydd rhieni/gofalwyr, holiaduron rhieni/gofalwyr a dysgwyr, a defnyddio'r adroddiad hunanwerthuso fel arf cyn-arolygiad. Gellir goresgyn yr holl faterion hyn, neu rai ohonynt, drwy newid y trefniadau arolygu a newid y ddeddfwriaeth er mwyn cadw'r elfennau gorau. Byddai symud i gyfnod dim rhybudd yn creu mwy o broblemau, ac yn fwy tebygol o olygu bod angen cyflwyno newidiadau tipyn mwy sylweddol i rai nodweddion o'r trefniadau arolygu presennol..

Cynllunio camau gweithredu ôl-arolygiad

(Cwestiwn 6: A ddylid lleihau'r amserlen ar gyfer paratoi cynllun gweithredu ôl-arolygiad, o gymharu â'r trefniadau presennol ar gyfer y sector ysgolion?)

(Cwestiwn 7: A ddylid cyflwyno cyfnod o amser sy'n gyson i'r holl sectorau addysg o ran paratoi cynllun gweithredu ôl-arolygiad?)

(Cwestiwn 8: Beth yw'r cyfnod o amser mwyaf priodol i'r holl ddarparwyr baratoi eu cynlluniau gweithredu ôl-arolygiad?)

Ar hyn o bryd, os yw ysgol yn cael ei harolygu gan Estyn, mae'r rheoliadau yn dweud bod rhaid i'r corff llywodraethu baratoi cynllun gweithredu sy'n mynd i'r afael ag argymhellion yr arolygwyr o fewn 45 diwrnod o'r dyddiad y cawsant adroddiad gan yr arolygwr. Fodd bynnag, os yw'r adroddiad yn datgan bod angen i'r ysgol gael mesurau arbennig neu fod angen gwneud gwelliannau sylweddol i'r ysgol, gall Gweinidogion Cymru nodi cyfnod byrrach os ydynt o'r farn bod natur frys yr achos yn gwneud hynny'n angenrheidiol.

Mae'r rheoliadau yn dweud y dylid paratoi adroddiad arolygu o fewn 35 diwrnod gwaith.

Felly, mae gan ysgol hyd at 80 diwrnod gwaith (o ddyddiad cwblhau'r arolygiad) i lunio cynllun gweithredu ôl-arolygiad. Mae'r cyfnod yn cael ei ystyried yn un rhy hir, ac nid yw'n gydnaws â chynllunio camau gweithredu yn gyflym ac yn ddi-oed

Yn enwedig mewn achosion lle cafodd darparwyr ddyfarniad anfodhaol a'u rhoi mewn categori arbennig; neu lle cawsant ddyfarniad digonol yn unig, gallai'r amserlen gynllunio atal ysgolion rhag gweithredu ar fyrder i fynd i'r afael â'r diffygion a nodwyd.

Gofynion cytundebol ac arferion gwaith sefydledig, nid rheoliadau, sy'n berthnasol i'r cynlluniau gweithredu ôl-arolygiad ar gyfer y sectorau ôl-16 oed, sy'n golygu y gellir dechrau cynllunio camau gweithredu ôl-arolygiad tua 3 mis ar ôl cwblhau'r arolygiad. Mae hyn yn golygu y gellir dechrau cynllunio camau gweithredu ar ôl i'r broses arolygu ddod i ben, ac y gallai'r darparwr baratoi ei gynllun gweithredu. Mae hyn felly'n caniatáu oddeutu pythefnos o amser ar ôl cwblhau adroddiad yr arolygiad, i'r darparwr sicrhau ei fod wedi mynd i'r afael â'r holl faterion a nodwyd yn yr adroddiad terfynol a fydd wedi'i gymedroli.